

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd
Dydd Mercher 14 Ebrill, 11.00 – 12.30
Telegynhadledd



<p><u>Yn Bresennol</u></p> <p>Aelodau'r Bwrdd: Charles Janczewski (Is-gadeirydd) Paul Orders Gareth Newell Fiona Kinghorn Abigail Harris Michael Evans Keith Meredith Alun Michael Mark Brace Tim Morgan Hannah Williams Sheila Hendrickson-Brown</p> <p>Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Huw Thomas (Cadeirydd) Sarah McGill Len Richards Gareth O'Shea Huw Jakeway Wendy Gunney Jo Salway</p> <p>Hefyd yn bresennol: Andrew Gregory Sian Sanders Anne Wei Nathan Swain Clive Bailey</p>	<p>Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CaF) Prif Weithredwr, CC Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro Cyfoeth Naturiol Cymru Rheolwr Grŵp, GTADC Comisiynydd Heddlu a Throsedd, De Cymru Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throsedd Heddlu De Cymru, (HDC) Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) Prif Swyddog Gweithredol, C3SC</p> <p>Arweinydd, Cyngor Caerdydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC Prif Swyddog Tân, GTADC Prif Uwch-arolygydd Heddlu De Cymru Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru</p> <p>Cyfarwyddwr - Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, CC Rheolwr Gweithredol Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant ac Ymgysylltu Rheolwr Partneriaeth a Chynllunio Strategol Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC</p>
---	--

Rhif	Eitem Agenda	
1 / 2	<p>Croeso a Chyflwyniadau Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2021 a nododd y Cadeirydd fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.</p>	
3.	<p>Diweddariad COVID-19</p> <p>Rhoddodd Fiona Kinghorn drosolwg o'r ffigyrau diweddaraf ar gyfer Covid-19 yng Nghaerdydd. Mae cyfraddau yn llawer llai ar draws Caerdydd a'r Fro ac ni fu unrhyw frigiadau o achosion yn ddiweddar mewn ysbytai. Tynnwyd sylw at y ffaith mai teithwyr rhyngwladol sy'n dychwelyd sy'n achosi'r pryder mwyaf, gan arwain at amrywiolion ychwanegol o'r feirws o bosibl, yn enwedig wrth i'r cyfyngiadau teithio ddechrau cael eu llacio.</p> <p>Mae brechu torfol yn yr ardal ar y blaen i dargedau Llywodraeth Cymru, gyda thrigolion 40+ oed yn gallu trefnu apwyntiadau a rhestr wrth gefn ar gael ar gyfer y boblogaeth gyfan.</p>	
4	<p>Adfer ac Adnewyddu wedi Covid - Strategaeth Adfer Canol Dinas Caerdydd</p> <p>Rhoddodd Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd Cyngor Caerdydd gyflwyniad yn amlinellu blaenoriaethau uniongyrchol a'r weledigaeth ar gyfer canol y ddinas wedi'r pandemig. Mewn ymateb i ymddygiad defnyddwyr sy'n newid a newidiadau i arferion gwaith, mae angen cydnabod canol y ddinas fel cyrchfan o ddewis ar gyfer siopa, hamdden a gweithgarwch economaidd. Yn ganolog i hyn fydd sicrhau ei fod yn cynnig amgylchedd iach, gwyrdd, diogel a hygyrch.</p> <p>Nodwyd bod y Bwrdd Partneriaeth Argyfwng Hinsawdd a chamau gweithredu Strategaeth Caerdydd Un Blaned yn rhoi cyfle i newid diwylliant sefydliadol i ddod yn wyrddach.</p> <p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynrychiolwyr CNC a'r Cyngor i gyfarfod a thrafod cyfleoedd partneriaeth wrth gyflawni gweledigaeth canol y ddinas • Cynigiodd Tim Morgan (Heddlu De Cymru) arbenigedd yr heddlu, drwy'r Tîm Lleihau Troseddau, i roi cyngor tactegol i gyflawni gweledigaeth canol y ddinas a lleihau troseddau drwy gynlluniau. 	<p>CNC / Cyngor Caerdydd</p> <p>HDC / Cyngor Caerdydd</p>

Rhif	Eitem Agenda	
	<ul style="list-style-type: none"> • Tynnodd Mark Brace sylw at y cysylltiadau sydd i'w gwneud gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) a datblygiad Economi'r Nos. • Cynigiodd Sheila Hendrickson-Brown gymorth ynghylch cynnwys busnesau dielw wrth gyflawni'r weledigaeth. <p>Pwysleisiodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Alun Michael bwysigrwydd parhaus negeseuon iechyd y cyhoedd syml. Mae risg yn dal i fod yn gysylltiedig â Covid-19 er bod y brechiad wedi'i gyflwyno.</p>	<p>PDC / Cyngor Caerdydd</p> <p>C3SC / Cyngor Caerdydd</p>
5.	<p>Diogelwch Cymunedol</p> <p><u>Diweddariad llywodraethu</u></p> <p>Rhoddodd Sian Sanders drosolwg o'r trefniadau newydd ar gyfer Diogelwch Cymunedol yng Nghaerdydd, gan symud i ffwrdd o'r strwythurau a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig.</p> <p>Canmolodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Alun Michael y gwaith a'r strwythur a ddefnyddiwyd yng Nghaerdydd fel esiampl ragorol i Gymru gyfan.</p> <p>Cam Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Manylion y trefniadau llywodraethu Diogelwch Cymunedol newydd i'w dosbarthu i'r Bwrdd. <p><u>Digwyddiad Gwynllŵg</u></p> <p>Rhoddodd yr Uwcharolygydd Tim Morgan drosolwg o'r digwyddiad a ddigwyddodd ar 21 Mawrth 2021 yn Rhodfa Gwynllŵg. Mae'r digwyddiad wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cydlynu trawsffiniol a gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion hirsefydlog.</p> <p>Cam Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal cyfarfod i ystyried strategaeth hirdymor rhwng Cyngor Caerdydd, Cyngor Casnewydd, Heddlu De Cymru/Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent. Gwasanaeth Tân De Cymru hefyd i gael ei gynnwys mewn trafodaethau. 	<p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Sian Sanders</p>
6.	<p>Unrhyw Fusnes Arall ac Edrych tua'r Dyfodol</p> <p><u>Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn</u></p> <p>Cam Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cysylltu ag aelodau'r BGC i enwebu unigolion o fewn eu sefydliad i gefnogi'r gwaith hwn. 	<p>Ysgrifenyddiaeth</p>

Rhif	Eitem Agenda	
	<p>Tynnodd Fiona Kinghorn sylw at y cysylltiadau rhwng y gwaith hwn ac Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd.</p> <p><u>Cyfrifiad</u></p> <p>Rhoddodd Gareth Newell ddiweddariad, gan dynnu sylw at gyfradd gwblhau o 90%. Bydd ardaloedd â chyfraddau cwblhau isel yn cael eu targedu yn ystod yr wythnosau nesaf.</p> <p>Cam Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Partneriaid y BGC i gefnogi cynyddu cyfradd cwblhau'r Cyfrifiad. <p><u>Unrhyw fusnes arall</u></p> <p>Tynnodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Alun Michael sylw at yr angen i adfer ar lefel y ddinas gael ei gyflawni'n lleol drwy BGCau yn hytrach nag ar lefel argyfwng sifil ranbarthol ehangach.</p> <p>Cam Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr ysgrifenyddiaeth i drefnu cyfleoedd i'r BGC drafod ffrydiau gwaith adfer lefel y ddinas yn fanwl. <p>Edrych tua'r Dyfodol</p> <p>Nodwyd yr eitemau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymateb i'r Adroddiad Craffu Gwasanaethau a Chymorth Lles ac Iechyd Meddwl Plant • Adferiad sy'n Dda i Blant • Strategaeth Datblygu Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid 2020/2022 - diweddariad ar gynnydd (BGC, mis Mehefin) • Adroddiad blynyddol Symud Mwy Bwyta'n Dda <p>Tynnwyd sylw at yr angen i fynd i'r afael â'r Ymateb Craffu Iechyd Meddwl Plant, y Strategaeth Datblygu Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid a'i chyd-destun diogelwch cymunedol ehangach e.e. Llinellau Cyffuriau, fel rhan o'r llif gwaith Adferiad sy'n Dda i Blant.</p>	<p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p>
	<p>Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • BGC Caerdydd 9 Mehefin 2021 • BGC Caerdydd 26 Gorffennaf 2021 	